pawb yn Swyddog arnynt i ddwyn hynny a fo yn eu Pyrsau

Hefyd ~~na~~ ~~ddysgont~~ na fenna na ~~chimmynnau~~ gwradwyddus na gwatwor na dynwared Cablus ~~ysp~~ a dychymmyg Celwydd neu ei ddoedyd yn ol arall dan boen ffin a charchar.

Hefyd na wnelont gynnen, ffrae, twyll neu Ledrad, munn neu gynllwyn rag ymgalyn o Lladron, na neb a wnel Anllyfodraeth dan boen ffin a charchar Canys gwyr wrthgerdd a ddylant ddwyn ymadroddion howddgar Hedychlon Caredig ufyd wasnaethgar i bawb o gowiriad y Brenhin ac Swyddogion iw gadarnhau ai ~~cwcerio~~.

Hefyd mis ymlaen pob gwyl ymofyn ai hathro i wybod pa le'r el rhag mynd gormod i'r unlle ag nad el ond un at wr a Deg punt o fowyd Dau at wr o Ugain Punt ag wrth y radd honno at wr a fo uwch o Rent.

Rhodd disgybl Disgyblaidd am gowydd tri swllt a Grôt.

Rhodd disgybl Penceirddiaidd am Gowydd chweswllt a Naw ceiniog ag i Athro chwaneg o syberwyd neu ryw elw.

Disgybl ysbas graddol dauddeg Ceiniog ar bob un o'r tair Gwyl arbennig.

Rhodd disgybl Penceirddiaidd bob un o'r Tair gwyl arbennig 3: 4. a phob neithior Reiol a neithior arall a chwrs clera, bob tair blynedd dauddeg Ceiniog.

Rhodd Pencerdd fwy syberwyd na disgybl.